

## Cofnodion Cyfarfod y 3ydd Fawrth 2020

**Presennol :-** Y Cadeirydd **Gareth Griffiths** a'r Cynghorwyr, Elfed Wyn Williams, Phyllis Ellis, Martin Davies, Aled Green, R Hefin Williams, Idris Thomas a Rhian Evans-Hill  
Croesawyd Y Cynghorydd Elwyn Jones

**Gweddi:** Offrymwyd gair o weddi gan Idris Thomas

### **Ymddiheuriadau.**

Richard LL. Jones, Gwawr Wyn Roberts, Emma Chappell a Lowri Hughes  
Dymuna'r aelodau gydymdeimlo a phobl y Gymuned ar golledion mawr yr ardal yr wythnos hon. Bu i Ysgol Brynrefail gollu 2 cyn ddisgybl o dan yr un amgylchedd, ac mor hawdd ydi methu sylweddoli oes mor anodd iawn ydi i bobl ifanc. Rhaid cofio bod y ffordd rydym yn ymddwyn tuag at ieuencid yn mynd yn bell, ac mae'n rhaid i ni fel oedolion fod yn glust i wrando, ac i fod yn ymwybodol fod unigolion yn mynd drwy amser anodd, a bod posib drwy wrando i ni allu cyfeiro nhw yn y ffordd iawn. Mae ein meddyliau, ni gyda'r teuluoedd hynny drwy'r cyfnod anodd yma.

### **Datgan buddiant**

Dim

### **Cofnodion Cyfarfod 4ydd Chwefror 2020**

Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir

Idris Thomas (1)

Phyllis Ellis (2)

### **Materion o'r cofnodion**

**Llythyr Kirsty Williams** – Derbyniwyd ymateb o swyddfa yr aelod cynulliad, yn ymddiheuro nad oes modd iddi gyfarfod i grwydro o amgylchi i ddysgu am hanes y fro, ond yn ceisio rhoi esboniad o'r hyn oedd hi yn geisio ei ddweud yng nghyd destun " Nid oes y fath beth â hanes Cymru".

**Arbed am Byth** – Nodwyd fod tŷ wedi ei ffeithio ym Mhenisarwaun dan y cynllun hefyd.

**LLwybr 139** – Derbyniwyd ateb gan y swyddog Llwybrau ynglyn a'r llwybr hwn. Mae arwyddion saeth felen yn mynd i'w gosod yno ac ar Llwybr 74 rhwng Carreg Garth a Rallt ac yn cael eu gosod ar ffens ger y giat glicied, Parc. O ran y llwybr cwrteisi, mae yn bosib defnyddio hwn er mwyn osgoi tramwyo ar draws y buarth, ond cyfrifoldeb y perchennog tir a'r un a crewyd y llwybr yw cynnal a chadw hwn. Er fod llwybr cwrteisi yno, mae yn rhaid sicrhau fod y llwybr swyddogol dal yn bodoli.

**LLwybr Cegin Arthur** – Y swyddog heb gael cyfle i ymweld a'r safle eto.

**Hen Lon/Parcio tu allan i Capel Cysegr** – Derbyniwyd ymateb yn cadarnhau nad oedd yr hen ffordd erioed wedi cael ei sdopio'n gyfreithiol, felly mae'n parhau i fod yn briffyrdd cyhoeddus. Oherwydd y trafferthion yma, mae'r Swyddfa Ardal wedi gofyn i'r uned draffig os oes modd gosod arwydd "limited waiting" gobeithio cawn gadarnhad yn fuan.

**Darn Tir Clwt y Bont** – Rydym bellach wedi cael cadarnhad ar berchennog y tir.

Cadeirydd.....

## **Gohebieuthau a Materion Eraill**

**Gosod Tai** – Derbyniwyd llythyr yn cadarnhau fod yna newid i bolisi gosod tai ar fin newid yng Ngwynedd. Mae'r polisi yn symud o system pwyntio i system Bandio. Bydd Y Cyngor Sir yn ysgrifennu at bawb sydd ar y rhestr aros i esbonio sut fydd hyn yn cael effaith arnynt fel unigolion.

**Golau Ciosg Rhiwlas** - Cafwyd cais am gymorth ariannol yn Rhiwlas. Mae'n ymddangos fod y photocell yn meddwl ei bod yn ddydd yn lle nos gan fod lamp uwchben y ciosg yn goleuo. Felly maent yn awyddus i roi teclyn amser ar y golau. Mae'r Cyngor Cymuned wedi gwario yn ddiweddar yn rhoi golau ynghyd a drws l'r ciosg ac yn y blaen. Search hynny roedd am i'r cleric holi i gael amcanbris ac wedyn penderfynu.

## **Cynllunio**

### **Ceisiadau a dderbyniwyd yn ystod y mis:**

**Wern Difyr, Bethel** – Estyniad Deulawr yn y cefn

**Capel Ebeneser, Deiniolen** – Addasu'r capel l 7 uned breswyl gan gynnwys uned fforddiadwy ynghyd a mynediad newydd a llecynnau parcio. Penderfynwyd Gwrthwynebu i'r cynllun ar sailf fod diffyg gwybodaeth o bwrpas penodol y cynllun.

## **Argyfwng Hinsawdd**

Derbyniwyd erthygl fod Cyngor Dinas Bangor yn Datgan fod yna Argyfwng Hinsawdd ac eu bod yn datgan i fynd i'r afael ar mater o fod yn ddi garbon erbyn 2030. Yn yr un modd mae Llywodraeth Cymru wedi datgan hyn hefyd y dyddiau diwethaf, ac o bosib bydd gwybodaeth pellach yn dod i'n rhan ynglyn a hyn. Yn y cyfamser mae Cyngor Cymuned Llanddeiniolen yn datgan fod y blaned mewn argyfwng hinsawdd ac y byddwn yn gwneud popeth yn ein gallu i fynd i'r afael a'r mater.

## **Diweddariad LLeCHI-**

Mae Parc Padarn yn gwthio i gael arwyddion i fyny yn Allt Ddu.

## **Adroddiad Cyfarfod o'r is bwyllgor Meysydd Chwarae**

Yng ngyfarfod yr Is bwyllgor nodwyd:

Llunio cwestiynnau i Cyngor Gwynedd a Un Llais

Llunio Amserlen penodol o ymgynghori a penderfynnu

Ceisio cael gwybodaeth o ddefnudd o'r parciau trwy ymweld yn ystod y misoedd nesaaf a llunio taflen arolwg i roi yn yr ysgolion i blant fynd adref i'w llenwi.

Ystyried talu i arbenigwr ddod allan i roi arolwg ac amcangyfrif o gost i ddod a'r parciau i safon.

Edrych ar ysweiriant a sefyllfa cynghorau eraill.

Trafodaeth gyda Cyngor Gwynedd ar berchnogaeth ond y Cyngor Sir yn cynnal a chadw ar ein rhan.

**Cadeirydd.....**

## **O gwmpas y Bwrdd**

**Awyrennau** – Nodwyd fod sŵn awyrennau o'r llu awyr yn sobor o uchel ac yn niwsans llwyr. Maent yn creu aflonyddwch yn enwedig i rai sydd yn defnyddio teclyn clywed. Awgrymwyd i gysylltu a'r awyrlu yn Fali a llythyru Liz Saville Roberts.

**Teclyn Osgoi galwadau Pendod** - Nodwyd fod teclyn ar gael i rhwystro galwadau poendod i bobl hyn, ond nid yw wedi ei hysbysebu yn iawn, ac felly nid oes rhai i gael bellach. Cysylltu a'r Adran Masnachu Safonau yn Cyngor Gwynedd i ddatgan ein siom ynglyn a'r ffordd mae hwn wedi ei hysbysebu.

**Ail Strwytho 6ed Dosbarth yn Arfon** – Yn y newyddion heddiw, mae Adran Addysg dros Arfon yn edrych ar ddyfodol 6ed dosbarth mewn ysgolion uwchradd. Teimlai'r Cyngor fod yn rhaid sicrhau nad oes unrhyw ymyraeth i 6ed dosbarth yn yr ardal.

Buasai symud 6ed dosbarth allan o Ysgol Brynrefail yn tlodi ysgol ac yn sicr yn ddiwedd ar ambell i Ysagol Uwchradd hynny ydi o bosib yn y pendraw mai uno dwy ysgol sydd yn y bon!. Awgrymwyd i lythyru Comisiynydd Addysg, Pennaeth Ysgol Brynrefail a Dyffryn Ogwen ynghyd a Chadeiryddion y Llywodreuthwyr.

## **Cadarnhau Taliadau**

505 – £742

507 – £150

508 – £150

509 – £150

510 – £150

511 – £140

**Cadeirydd.....**